# PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 9 MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McKerlich(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells a/ac Stubbs |

## 1 : PENODI CADEIRYDD

Nodwyd fod y Cynghorydd Rod McKerlich wedi'i benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 26 Mai 2016.

### a <u>Aelodau'r Pwyllgor</u>

Nodwyd fod y Cynghorwyr McKerlich (Cadeirydd), Dilwar Ali, Nigel Howells, Keith Hyde, Mohammed Javed, Ed Stubbs ac Elaine Simmons wedi'u penodi yn Aelodau'r Pwyllgor hwn yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Mai 2016.

### b <u>Cylch Gorchwyl</u>

Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant.

## 2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Hyde, Javed a Simmons.

## 3 : DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 4 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 12 Mai 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5 : CYFNEWIDFA LO CAERDYDD

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor fod cyflwr y Gyfnewidfa Lo wedi peri pryder i'r cyhoedd yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac roedd y Pwyllgor wedi monitro'r pryder hwn; Roedd cynlluniau wedi dod i'r fei yn ddiweddar ar gyfer datblygu'r eiddo, ac roedd hyn wedi ysgogi mwy o drafodaeth.

Yn y cyfarfod hwn, byddai Aelodau yn clywed gan ystod o randdeiliaid perthnasol am y cynlluniau ar ddyfodol yr adeilad, ac ar y sail y dystiolaeth a dderbynnir byddent yn rhoi eu sylwadau a'u cyngor i Arweinydd y Cyngor.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod fod Cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi dyletswydd ar y Pwyllgor i ddal penderfyniadau Cabinet i gyfrif, a phenderfyniadau'r swyddogion hynny y mae'r Cabinet yn dirprwyo awdurdod iddynt. Nid oes gan y Pwyllgor gylch gwaith cyfansoddiadol o ran profi neu herio teilyngdod penderfyniadau rheoleiddiol. Galluogwyd y gwaith ar y Gyfnewidfa Lo ar ddechrau 2014 drwy benderfyniad rheoleiddiol, nad oedd yn weithredol gan y Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd yn ymwneud â chamau gorfodi rheolaeth adeiladu.

Gan nad yw penderfyniadau o'r fath yn fater i'r Cabinet a chan nad oes modd eu gwrthdroi gan y Cyngor Llawn, nid craffu yw'r fforwm ar gyfer datrys materion fel hyn, ac mae'r Cyngor wedi gweithredu dulliau eraill at ddibenion o'r fath.

Roedd ystod o rhanddeiliaid yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, ac roedd hi'n bosib y byddai rhai ohonynt eisiau trafod y gwaith brys a'r materion cysylltiedig. Roedd y Cadeirydd yn cydnabod mai rôl Pwyllgorau Craffu yw clywed barn a phryderon y cyhoedd, ac roedd o'r farn ei bod hi'n briodol bod unigolion yn cael y cyfle i leisio'r rhain – fodd bynnag, fel y nodwyd, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau Pwyllgor ystyried unrhyw farn a fynegwyd ar y materion hyn o fewn y sgôp a oedd wedi'i ddyrannu ar gyfer y cyfarfod yn yr adroddiad – oedd i drafod cynaliadwyedd a dyfodol adeilad y Gyfnewidfa Lo, i dderbyn sicrwydd y bydd y cynlluniau gweithredol yn cyflawni budd economaidd a masnachol i Gaerdydd a'i thrigolion, a hyder y bydd y Cyngor yn defnyddio ei bŵer yn briodol i ddiogelu'r ased bwysig hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl dystion oedd wedi rhoi o'u hamser i ymuno â'r cyfarfod, ac i helpu'r Pwyllgor i gael dealltwriaeth o'r materion ynghylch y Gyfnewidfa Lo.

Atgoffodd y Cadeirydd yr holl dystion oedd yn bresennol fod hwn yn gyfarfod cyhoeddus, gydag aelodau o'r cyhoedd a'r wasg yn bresennol, roedd yn ymwybodol bod y pwnc yn un cynhennus i llawer o bobl, ond gofynnodd i'r tystion i beidio â chynhyrfu wrth gyflwyno eu sylwadau.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bale –Arweinydd, Paul Orders – Prif Weithredwr, Neil Hanratty – Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd, Geoff Shimmel – Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyfreithiol, John Worrall – Rheolwr Gweithredol, Prif Brojectau a Richard Cole – Uwch Swyddog Cynllunio i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Arweinydd wneud datganiad, ac fe nododd bwysigrwydd adeilad y Gyfnewidfa Lo gan ddatgan mai dyma oedd y lleoliad y byddai'r siec cyntaf werth £1 miliwn yn cael ei arwyddo. Nododd yr Arweinydd bod llawer o gynigion wedi bod mewn perthynas â'r adeilad dros y blynyddoedd ond nid oedd dim wedi digwydd o'r rhain; roedd hyn yn gynnig newydd i barhau â gonestrwydd yr adeilad am ddim i'r Cyngor; i ddod â stori'r Gyfnewidfa Lo yn fyw unwaith yn rhagor ac iddo ddod yn gatalydd ar gyfer adfywio'r ardal.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Neil Hanratty wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor
Cyflwyniad

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau am y cyflwyniad.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch y term ‘diarddel’ a rhoddwyd gwybod iddynt bod hyn yn ymwneud â gwrthod ased gwastraffus; roedd yn cael ei drosglwyddo i’r Goron, os oedd yn ased negyddol y byddai modd i’r Goron ei wrthod hefyd; roedd yn berchnogaeth noeth heb gyfrifoldeb am gynnal a chadw.

- Gofynnodd yr aelodau pryd fyddai’r cyhoedd yn gallu cael mynediad i’r adeilad a rhoddwyd gwybod iddynt y byddai’r adeilad ar agor, ac mai'r neuadd fyddai ei bwynt ffocws; byddai mynediad i rannau eraill yr adeilad hefyd; gwahoddir y cyhoedd i gael mynediad at yr adeilad.

Gwahoddodd y Cadeirydd Lawrence Kenwright a David Marsh – Signature Living i’r cyfarfod ac fe estynnwyd gwahoddiad iddynt wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor. Rhoddwyd gwybod i aelodau bod gwaith strwythurol i’w wneud ar yr adeilad, ond yn esthetig, byddai’n cael ei adael mor wreiddiol â phosib, gan drosi adeilad etifeddiaeth sensitif a’i fasnachu; byddai llawer o straeon ac etifeddiaeth ynghlwm wrth yr adeilad. Byddai £35m o fuddsoddiad heb arian cyhoeddus; 100 o swyddi adeiladu ynghyd â 60 o staff llety a hyd at 50 o gyfleoedd prentisiaeth. Byddai’r project yn ychwanegu gwerth i’r ardal a’r byddai'r ardal gyhoeddus gyfagos yn cael ei huwchraddio hefyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau am y cyflwyniad Signature Living:

- Gofynnodd Aelodau pryd y byddai cais cynllunio yn cael ei gyflwyno, a rhoddwyd gwybod bod cais eisoes wedi'i gyflwyno ar gyfer newid defnydd.

- Gofynnodd Aelodau sut oedd trafodaethau â CADW wedi bod yn dod yn eu blaen a rhoddwyd gwybod iddynt bod blaen-gyfarfod cychwynnol da iawn wedi cael ei gynnal; roedd CADW yn hapus hyd yn hyn, ac roedd arnynt eisiau gweithio gyda phartneriaid wrth fynd ymlaen.

- Gofynnodd Aelodau a fyddai unrhyw ymgysylltu gyda'r gymuned leol yn Butetown yn digwydd wrth i stori'r Gyfnewidfa Lo ddatblygu.
- Rhoddwyd gwybod i aelodau bod yr ymgysylltu hwn eisoes wedi dechrau ac y byddai diwrnodau agored, cyfarfodydd bwrdd ac ati yn cael eu cynnal i gasglu straeon a hanesion lleol, gan gyfarfod â phobl leol a haneswyr gyda diddordeb yn yr adeilad hwn.

- Roedd yr Aelodau eisiau sicrwydd na fyddai’r adeilad mewn cyflwr gwael pe byddai Signature Living yn gadael yr adeilad.
- Cynghorwyd yr aelodau mai cam cyntaf y datblygiad oedd atal y dŵr oedd yn llifo i mewn i’r adeilad, felly o’r cychwyn cyntaf byddai'r adeilad mewn cyflwr gwell. Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i aelodau na fyddai'r tu mewn i'r adeilad yn cael ei dynnu allan.

- Nododd yr Aelodau bod grŵp ymgyrchu lleol sefydledig oedd angen teimlo fel eu bod ynghlwm wrth y project ac i deimlo'n gyfforddus â’r cynigion.
- Rhoddwyd gwybod i’r aelodau bod y broses ymgysylltu eisoes wedi dechrau a bod croeso iddyn nhw ymuno â’r broses.

- Gofynnodd aelodau am syniad am amserlen y project a rhoddwyd gwybod iddynt y byddai angen cael caniatâd cynllunio ac yna roedd hi'n debygol y byddant ar agor mewn oddeutu 12 mis.

Gwahoddodd y Cadeirydd Mike Johnson (Coal Exchange Ltd), Ian Hill (Save the Coal Exchange) a Kerry Hood i gyflwyno sylwadau. Soniodd Mike Johnson am ei rôl gyda'r adeilad a nododd mai'r cynnig hwn oedd yr un mwyaf cyffrous ers 25 mlynedd. Cyfeiriodd Ian Hill a Kerry Hood at y ddogfen a ganlyn: Dogfen

Gwahoddodd y Cadeirydd Jon Avent (Mann Williams) i gyflwyno ei sylwadau: Cyflwyniad

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i David Leathley gynnig ei sylwadau, ac fe nododd ei fod wedi bod yn rhedeg siambr llwyddiannus o'r tu mewn i adeilad y Gyfnewidfa Lo ers nifer o flynyddoedd; roedd yn ystyried ffyddlondeb grŵp Save the Coal Exchange i'r adeilad yn ardderchog; ac mai'r unig feirniadaeth am y cynnig yr oedd wedi ei chlywed oedd 'beth os fyddwch chi'n methu'; roedd cyd-weithwyr o Lerpwl wedi canmol y datblygwyr ac roedd yn ystyried bod buddsoddi £15m i wneud yr adeilad yn un diogel yn bositif.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau bod Hilary Roberts wedi rhoi cyflwyniad ysgrifenedig a bod hyn wedi'i gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.

Gwahoddodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y Cyngor a Signature Living i fynd i'r afael â chwestiynau a godwyd yn ystod y cynrychioliadau hyn.

- Rhoddwyd eglurder i aelodau ar orchmynion gwahardd ac analluogi; prosesau rheoleiddio a gwybodaeth gyhoeddus.

- Roedd y Prif Weithredwr o'r farn fod hyn yn fater anodd iawn i Gaerdydd, i gydbwyso dyheadau'r Gymuned a'r Cyngor i gael datrysiad effeithiol i ddirywiad hir-dymor y Gyfnewidfa Lo, oedd yn ased etifeddiaeth critigol.
- Roedd goblygiadau sylweddol o ran peidio â bod yn berchen ar yr adeilad. Roedd y tri phrif fater fel a ganlyn: osgoi atebolrwydd, dyletswydd ymddiriedol i adennill arian cyhoeddus a wariwyd ac adfywio'r adeilad a'r ardaloedd ehangach. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod ei asesiad o ran y 3 amcan wedi arwain at ddatrysiad cadarn gyda Signature Living.

  Ychwanegodd y swyddogion bod Cyngor Caerdydd wedi gweithredu memorandwm cyd-ddealltwriaeth oedd yn gosod disgwyliadau o ran sut i symud ymlaen, roedd hyn yn gytundeb cyfreithiol gyda Signature Living. Derbyniwyd y pwyntiau am gyfathrebu yn y gorffennol a nodwyd y materion o ran amseru; nid oedd rheswm dros beidio ag ymgysylltu â phartneriaid mewn modd amserol oherwydd y sefyllfa o fod gyda phartner dewisol.

- Gofynnodd yr aelodau beth all Cyngor Caerdydd wneud i sicrhau fod y datblygwr yn ehangu'r adeilad a Sgwâr Mount Stuart cyfan.
- Nododd yr Arweinydd fod rhai materion cyn ei amser fel Arweinydd, ond nid oedd arno eisiau dymchwel na newid unrhyw elfen. Roedd y cynnig hwn yn mynd i'r afael â phryderon dros arian cyhoeddus yn cael ei wario; perygl cyhoeddus; y posibilrwydd i ddatblygu'r ardal ehangach ac ymgysylltu â'r gymuned. Byddai'r datrysiad yn gwarchod yr adeilad wrth symud ymlaen,

drwy bartneriaeth aeddfed a gweithio fel rhanddeiliad, a drwy Signature Living yn ymrwymo i Gaerdydd yn y tymor hir.

- Gwnaeth yr Aelodau longyfarch Signature Living ar gynnig cyffrous ac arloesol.
- Gofynnodd Aelodau a oedd cyfleusterau parcio yn y gwesty, a rhoddwyd gwybod iddynt na fyddai maes parcio dynodedig ond roedd trafodaethau wedi bod gyda pherchnogion meysydd parcio mewn perthynas â chymryd llefydd ar les.

- Cyfeiriodd Aelodau at reolaeth cadwraeth, ymgysylltiad cymunedol a dadansoddi risg; nododd swyddogion bod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys pob un o'r rhain.

- Rhoddwyd gwybod i aelodau bod trafodaeth yn mynd rhagddi gyda CADW oedd yn canmol y cynnig; dim ond ar gyfer newid defnydd oedd y cais cynllunio, a byddai cais adeilad rhestredig a gorchymyn cadwraeth CADW yn cael eu cyflwyno yn y pendraw, felly roedd llwybr i'w ddilyn.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd cynlluniau i weithio gyda thenantiaid presennol y Gyfnewidfa Lo, a rhoddwyd gwybod bod Signature Living eisoes wedi trafod gyda thenantiaid presennol a chyda Save the Coal Exchange.

Diolchodd y Cadeirydd i bob tyst a swyddog, a’r Arweinydd a’r Prif Weithredwr am fynychu'r cyfarfod.

CYTUNWYD – Y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Arweinydd er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

## 6 : TREFNU RHAGLEN WAITH

Nododd y Cadeirydd fod Aelodau wedi ceisio awgrymiadau gan Adrannau y llynedd ynghylch y pynciau y dylid eu craffu; ychwanegodd ei bod hi’n bosib gofyn i’r cyhoedd a sefydliadau trydydd sector am syniadau i'w trafod yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu’r Economi a Diwylliant ym mis Gorffennaf.

Trafododd yr aelodau yr opsiynau amrywiol, ac roeddent o’r farn eu bod yn fodlon cynnig cyfle i Gyfarwyddwyr awgrymu syniadau cyn belled â’u bod yn canolbwyntio ar faterion risg.

Cytunodd y Prif Swyddog Craffu i greu rhestr o destunau a'i chylchredeg i Aelodau fyddai'n ychwanegu ati; yna, byddai'r rhestr yn cael ei thrafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

## 7 : GOHEBIAETH

Nodwyd yr adroddiad gohebiaeth.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu’r Economi a Diwylliant ddydd Iau 7 Gorffennaf 2016 am 4.30pm, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.